Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG49599**

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

## Bil Seilwaith (Cymru)

Gofynion ar gyfer ymgynghori cyn ymgeisio a dulliau o ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau lleol

Dyddiad cyhoeddi: 13 Mai 2024

Ymatebion erbyn: 22 Gorffennaf 2024

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx

## Trosolwg

Mae'r Bil Seilwaith (Cymru) yn cyflwyno cyfundrefn fodern a symlach ar gyfer cydsynio i brosiectau seilwaith arwyddocaol yng Nghymru, ar y tir ac ar y môr.

Mae ymgysylltu ac ymgynghori'n gynnar â rhanddeiliaid a chymunedau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn cael cyfle i helpu i ddylanwadu ar brosiectau a allai effeithio arnynt a'u llywio yn rhan bwysig o'r broses gydsynio.

Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpar ymgeiswyr fynd drwy gyfnod o ymgynghori cyn ymgeisio cyn i gais am gydsyniad seilwaith allu cael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, cedwir manylion a materion penodol unrhyw ofynion sylfaenol ar gyfer ymgynghori cyn ymgeisio yn ôl ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn rhanddeiliaid a phersonau eraill sy'n debygol o gymryd rhan yn y broses gydsynio ynglŷn â sut y dylid cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio.

## Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw **22 Gorffennaf 2024** a gallwch ymateb drwy ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:

E-bost: Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i: **cydsyniadseilwaith@llyw.cymru** (dylech gynnwys ‘Bil Seilwaith (Cymru) – Gofynion ymgynghori cyn ymgeisio’ yn y llinell destun.

Post: Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i:

Bil Seilwaith (Cymru) – Gofynion ymgynghori cyn ymgeisio
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

E-bost: cydsyniadseilwaith@llyw.cymru

Ffôn: Owain Williams ar 0300 025 1715

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: hyperlink

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru ac ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i gyflawni swyddogaethau a rôl graidd Llywodraeth Cymru. (Erthygl 6(1)(e))

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Yn achos ymgyngoriadau ar y cyd, mae'n bosibl y bydd hyn hefyd yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a'i bod yn bosibl y bydd Llywodraeth Cymru o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

**Eich hawliau**

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Cefndir | 1 |
| Y sefyllfa bresennol o ran y Bil | 2 |
| Drafft presennol y Bil | 2 |
| Mater | 3 |
| Cwestiynau | 3 |

# PAPUR YMGYNGHORI

**Bil Seilwaith (Cymru)**

**Gofynion ar gyfer ymgynghori cyn ymgeisio a dulliau o ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau lleol**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Bil Seilwaith (Cymru) ("y Bil") yn cyflwyno cyfundrefn fodern a symlach ar gyfer cydsynio i brosiectau seilwaith arwyddocaol yng Nghymru, ar y tir ac ar y môr. Mae'r angen am y Bil hwn wedi deillio o Ddeddf Cymru 2017, a wnaeth ddatganoli pwerau pellach i Gymru ar gyfer cydsynio i brosiectau cynhyrchu ynni, llinellau trydan uwchben, porthladdoedd a harbyrau a mathau eraill o seilwaith.

1.2 O ganlyniad i'r ffordd y cafodd y pwerau hyn eu datganoli gan Lywodraeth y DU, mae'n golygu bod Cymru wedi gorfod defnyddio prosesau cydsynio sydd wedi dyddio nad ydynt yn addas i'r diben. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r Bil yn cyflwyno proses gydsynio unedig newydd.

1.3 Rhan hanfodol o'r broses hon yw cynnig cyfleoedd ystyrlon a chynhwysol i randdeiliaid a chymunedau lleol ddylanwadu ar ddatblygiadau a allai effeithio arnynt cyn gynted â phosibl, gan ddechrau â'r cyfnod cyn i gais gael ei gyflwyno.

1.4 Mae'r Bil yn ceisio gwneud hyn drwy gyflwyno gofyniad i ddarpar ymgeiswyr fynd drwy gyfnod o ymgynghori cyn ymgeisio cyn i gais am gydsyniad seilwaith allu cael ei wneud i Weinidogion Cymru.

1.5 Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn, syniadau ac awgrymiadau ynglŷn â sut y gallai gofynion ymgynghori cyn ymgeisio gael eu pennu yn yr is-ddeddfwriaeth.

1.6 Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 22 Gorffennaf 2024. Mae'r cyfnod ymgynghori hwn yn fyrrach na chyfnod ymgynghori safonol Llywodraeth Cymru. Ystyrir bod cyfnod byrrach yn briodol am fod yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar ran benodol iawn o'r broses y rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddi drwy'r broses craffu ar y Bil. Hefyd, y papur hwn yw'r ymgynghoriad cychwynnol ar y pwnc, a bydd ymgynghoriad manylach yn dilyn yn seiliedig ar y canlyniadau hyn. Felly, ystyrir bod cyfnod o 10 wythnos yn addas.

## 2. Cefndir

2.1 Yn ystod y broses o graffu ar y Bil gan Senedd Cymru, trafododd aelodau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y diffyg manylion ar wyneb y Bil mewn perthynas ag ymgysylltu â'r gymuned ar gam cyn ymgeisio'r broses gydsynio.

2.2 Y cyfiawnhad dros y polisi o beidio â bod yn rhy ragnodol mewn deddfwriaeth sylfaenol yw galluogi gofynion cyn ymgeisio i gael eu teilwra'n effeithiol at gategorïau gwahanol o brosiectau. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried yr amrywiaeth eang o brosiectau y gellir cydsynio iddynt drwy'r Bil ar y tir ac yn ardal forol Cymru, lle y gall gofynion penodol fod yn briodol ar gyfer datblygiadau penodol ond nid eraill.

2.3 Yn yr un modd, drwy bennu gofynion cyn ymgeisio manylach mewn is-ddeddfwriaeth bydd mwy o hyblygrwydd i ddiwygio a diweddaru gofynion wrth i dechnegau newydd a gwell ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu gael eu cyflwyno, heb fod angen deddfwriaeth sylfaenol bellach.

## 3. Y sefyllfa bresennol o ran y Bil

3.1 Ar 16 Ebrill 2024, pleidleisiodd Senedd Cymru i basio testun terfynol y Bil yng Nghyfnod 4. Caiff y Bil ei gyflwyno yn awr i gael Cydsyniad Brenhinol.

## 4. Drafft presennol y Bil

*Deddfwriaeth sylfaenol*

4.1 Mae adran 30 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n bwriadu cyflwyno cais am gydsyniad seilwaith ymgynghori ar gais arfaethedig cyn iddo gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru.

4.2 Ni chaiff unrhyw weithgarwch ymgynghori neu gyhoeddusrwydd a gynhelir cyn i hysbysiad o gais arfaethedig o dan adran 29 o'r Bil gael ei dderbyn gan Weinidogion Cymru ei drin fel ymgynghoriad neu ymgyrch gyhoeddusrwydd o dan adran 30.

4.3 Mae adran 30 o'r Bil hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a fydd yn nodi'r manylion am faterion megis:

- Gyda phwy y mae angen ymgynghori ar y cam cyn ymgeisio;
- Sut mae'n rhaid cynnal ymgyngoriadau cyn ymgeisio;
- Sut mae'n rhaid rhoi cyhoeddusrwydd i ymgyngoriadau cyn ymgeisio;
- Yr amserlen o ran ymgyngoriadau cyn ymgeisio;
- Sut i ymateb i ymgyngoriadau cyn ymgeisio;
- Ei gwneud yn ofynnol i ddarpar ymgeiswyr lunio a chyhoeddi adroddiad ynglŷn â'u cydymffurfiaeth ag adran 30 o'r Bil.

*Is-ddeddfwriaeth*

4.4 I gyd-fynd â'r Bil, mae ‘Datganiad o Fwriad y Polisi’ wedi'i gyhoeddi sy'n nodi'r materion y rhagwelir y cânt eu pennu mewn is-ddeddfwriaeth. Bydd unrhyw faterion a gynigir ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn destun ymgynghoriad pellach. Gellir gweld copi o'r Datganiad o Fwriad y Polisi drwy ddilyn y ddolen isod:

[Datganiad o Fwriad y Polisi – 1 Medi 2023.pdf (senedd.cymru)]

[Atodiad ir Datganiad o Fwriad y Polisi - 15 Mawrth 2024.pdf (senedd.cymru)]

## 5. Mater

5.1 Fel y trafodwyd ym mharagraff 2.1, mae'r broses craffu ar y Bil wedi codi cwestiynau am y ffordd yr ymgynghorir ac yr ymgysylltir yn benodol â rhanddeiliaid a chymunedau lleol ar y cam cyn ymgeisio, o ystyried bod y mwyafrif o'r gofynion y bydd angen i ddarpar ymgeiswyr gydymffurfio â nhw yn cael eu cadw'n ôl ar hyn o bryd ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

5.2 Y rheswm dros hyn yw bod ein dull polisi yn seiliedig ar y dybiaeth y gallai unrhyw ofynion a bennir mewn deddfwriaeth ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid a'r gymuned fod yn gymwys i bob datblygiad a gwmpesir gan y Bil ac, felly, ei bod yn bwysig sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cymesuredd ar gyfer mathau gwahanol o ddatblygiadau a'i gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ymgynghori ac ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid eraill mewn ffordd ystyrlon a chynhwysol.

5.3 Er mwyn sicrhau y gall cymunedau lleol gymryd rhan yn y broses o gydsynio i seilwaith mewn ffordd gynhwysol a'i gwneud yn bosibl i unrhyw sylwadau a gyflwynir ganddynt mewn perthynas â datblygiadau arfaethedig gael eu hystyried, rydym yn ceisio awgrymiadau ac argymhellion ynglŷn â sut y gellir atgyfnerthu is-ddeddfwriaeth er mwyn adlewyrchu hyn.

5.4 Er enghraifft, ar hyn o bryd mae'r model ymgynghori ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn nodi'r gofynion sylfaenol canlynol ar gyfer ymgynghori cyn ymgeisio:

- Rhaid i ymgeiswyr roi cyhoeddusrwydd i gais arfaethedig drwy arddangos hysbysiadau safle, rhoi hysbysiad ysgrifenedig i berchenogion/meddianwyr tir a chyhoeddi hysbysiad o gais arfaethedig mewn papur newydd sydd mewn cylchrediad yn yr ardal leol y mae'r cais yn ymwneud â hi;
- Ymgynghori ag ymgyngoreion cymunedol, ymgyngoreion arbenigol ac unrhyw berson perthnasol arall drwy hysbysiad ysgrifenedig.

5.5 Er bod hwn yn fan cychwyn priodol, rydym yn awyddus i archwilio sut y gellir atgyfnerthu'r gyfundrefn ymgynghori cyn ymgeisio fel rhan o'r broses o gydsynio i seilwaith.

## Cwestiynau

Wrth ystyried eich ymatebion i'r cwestiynau a nodir isod, efallai y byddwch am ystyried materion megis:

- Pa mor effeithiol yw'r dulliau presennol o ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau lleol mewn cyfundrefnau cydsynio eraill a'r system gynllunio ehangach?

- A ddylid defnyddio/gwella'r model ymgynghori ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol?

- A oes unrhyw ddulliau newydd neu arfaethedig o ymgynghori ac ymgysylltu a all fod yn briodol ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol yng Nghymru?

- A ddylai unrhyw ofynion ar gyfer ymgynghori cyn ymgeisio fod yn gymwys i bob datblygiad a ganiateir drwy'r Bil neu a ddylid eu teilwra at fathau penodol o brosiectau?

- Sut y byddai gofynion ymgynghori ar gyfer datblygiadau yn ardal forol Cymru yn wahanol i ddatblygiadau ar y tir yng Nghymru?

- A ddylai fod yn ofynnol i ddarpar ymgeiswyr drafod eu bwriadau o ran ymgynghori cyn ymgeisio ag awdurdodau cynllunio lleol a/neu Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn cael gwybodaeth am grwpiau cymunedol lleol, lleoliadau priodol ar gyfer digwyddiadau ac ati?

**Cwestiwn 1:**

**Pa ofynion y dylid eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau bod y gymuned yn chwarae mwy o ran yn y broses gydsynio, gan sicrhau proses ymgynghori gymesur ar gyfer pob math o ddatblygiad a gwmpesir gan y Bil?**

**Cwestiwn 2:**

**A oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud neu dystiolaeth i'w chyflwyno mewn perthynas â sut y gellir gwella'r ffordd y caiff y gymuned a rhanddeiliaid eu cynnwys yn y broses o gydsynio i seilwaith, neu unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwelliannau?**

**Cwestiwn 3:**

**Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai gofynion ymgynghori cyn ymgeisio fel rhan o'r broses o gydsynio i seilwaith arfaethedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Beth yn eich barn chi fyddai’r effeithiau hynny? Sut y gellid cynyddu’r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru’r effeithiau negyddol?**

**Cwestiwn 4:**

**Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r polisi arfaethedig ar gyfer gofynion ymgynghori cyn ymgeisio fel rhan o'r Bil Seilwaith (Cymru) gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**